Gorwel
cefnogaeth a mwy • support and more







Pecyn Gwybodaeth

# Gweithiwr Cefnogi Pobl Hŷn

Cefnogaeth a mwy

GC569-00DR

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

## 1. Croeso

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Chwilio am swydd ym maes cefnogi?  Ydach chi eisiau gneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau – dewch i weithio i Gorwel

**Rydym yn cynnal diwrnod recriwtio dydd Sadwrn 11 Mawrth 2023 yn Y Galeri, Caernarfon** lle bydd cyfle i chi glywed mwy am Gorwel, y swyddi a'r hyfforddiant sydd ar gael a pham bod Gorwel yn lle arbennig i weithio.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd yma mae manylion y diwrnod recriwtio ar ein gwefan.  Gofynnwn i chi gwblhau y ffurflen datgan diddordeb sydd ar y wefan cyn **hanner dydd, dydd Mercher 8 Mawrth 2023.**

**GC569-00DR**
**Gweithiwr Cefnogi Pobl Hŷn**
**Cytundeb Parhaol**
**35 awr yr wythnos**
**Lleoliad gwaith – Llangefni / Gweithio adre**

Bydd Osian Elis, Prif Swyddog Gorwel yn rhoi cyflwyniad ar wasanaethau Gorwel, a manylion y swyddi sydd ar gael, wedyn bydd cyfle i chi gyfarfod a sgwrsio gyda staff Gorwel dros ginio a phaned, cyn cynnal cyfweliadau yn y prynhawn.

Edrychwn ymlaen i'ch cyfarfod ar y 11 Mawrth, fe welwch fanylion yr holl swyddi ar ein gwefan   https://www.grwpcynefin.org/ymunwch-ar-tim/swyddi-gwag/

**Yn gywir**
**Tîm Adnoddau Dynol**

## 2. Cefndir

### Grŵp Cynefin

Grŵp Cynefin yw'r unig gymdeithas dai sydd â chartrefi ym mhob un o chwe sir Gogledd Cymru a Gogledd Powys. Cafodd y gymdeithas ei sefydlu yn 2014 yn dilyn uniad dwy gymdeithas dai uchel eu parch. Rydym yn berchen ar, ac yn rheoli bron i 4,500 o gartrefi, gan gynnwys cynlluniau tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn. Mae gennym ddiddordeb mewn bron i 800 o dai fforddiadwy eraill drwy gynlluniau cymorth prynu a rhannu ecwiti.

Mae dau is-gwmni hefyd yn weithredol o dan ambarél Grŵp Cynefin: Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithio i helpu pobl hŷn drwsio, addasu, cynnal a chadw eu cartrefi fel y gallent barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

### Gorwel

Mae Gorwel yn uned fusnes o fewn Grŵp Cynefin sy'n darparu gwasanaethau o safon i:

- gefnogi pobl sy'n dioddef trais yn y cartref
- gefnogi pobl rhag colli ei cartref ac atal digartrefedd

Rydym yn gweithio gydag unigolion a theuluoedd, rhai ohonynt yn denantiaid Grŵp Cynefin, o fewn pedair sir gogledd Cymru: Ynys Môn, Gwynedd, Sir Conwy a Sir Ddinbych.

Mae ein prosiectau'n cynnwys llochesi, cynlluniau tai â chefnogaeth, gwasanaethau plant a phobl ifanc, cefnogaeth yn y gymuned a gwasanaeth ymgynghorwyr annibynnol trais yn y cartref. Ar gyfartaledd rydym yn cefnogi hyd at 650 o bobl yr wythnos ac mae gennym dros 70 o staff cyflogedig proffesiynol.

Mae gennym staff profiadol a phroffesiynol yn gweithio o swyddfeydd ym Mhenygroes, Caernarfon, Llangefni, Pwllheli, Dinbych, Dolgellau a Blaenau Ffestiniog.

Mae Gorwel yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

**Ynys Môn**
**Gwasanaeth Pobl Hŷn**

Mae'r prosiect yn darparu cymorth fel y bo'r angen yn gysylltiedig â'r cartref i bobl 55 oed a hŷn yn Ynys Môn. Darperir y gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos, 9am – 5pm ac mae'n darparu cymorth tymor byr, tymor canolig a thymor hir i alluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Fe'i cynigir i denantiaid cymdeithasol a phreifat yn ogystal â pherchnogion-breswylwyr. Ariennir y prosiect hwn gan Dîm Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ynys Môn.

Gall y math o gefnogaeth tai a ddarperir gynnwys:

- Cymorth gyda sgiliau bywyd a sgiliau byw'n annibynnol
- Cymorth gyda rheoli dyledion rhent/morgais/biliau cyfleustodau
- Cymorth gydag addasiadau i wella hygyrchedd yn y cartref
- Cyngor a chefnogaeth gyffredinol ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch personol a chymunedol
- Cymorth i sefydlu cysylltiadau a gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol
- Cynorthwyo gyda rheoli cyllid ac uchafu incwm, llunio a chadw at gyllideb a hawlio budd-daliadau lles y mae ganddynt yr hawl iddynt

- Cydgysylltu â gwasanaethau statudol neu wasanaethau proffesiynol eraill
- Cymorth i fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Cyngor a chefnogaeth i ddilyn ffordd o fyw iach ac egnïol
- Cyfeirio at wasanaethau eraill lle bo’n briodol.

Ni fydd y prosiect yn:

- Darparu gofal personol megis siopa, ymolchi personol, cymorth gyda gwisgo na darparu prydau bwyd.
- Rhoi meddyginiaeth o unrhyw fath.
- Codi unrhyw un ar ôl syrthio (mae’n rhaid i ni alw’r gwasanaeth ambiwlans).
- Trin arian neu ddogfennau cyfreithiol ar ran defnyddwyr y gwasanaeth, aelodau’r teulu neu grŵp cymdeithasol

**Gwasanaethau Trais yn y Cartref Gwynedd ac Ynys Môn**

**Llochesi a chefnogaeth mewn argyfwng**
Mae Gorwel yn darparu Gwasanaeth Trais yn y Cartref yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan gynnwys pedair lloches mewn pedwar lleoliad cyfrinachol sydd yn llety argyfwng 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos i ferched a’u plant sydd yn dianc oddi wrth trais yn y cartref.

**Cynllun Cefnogaeth Symudol ac Ymyrraeth Argyfwng**
Mae’r Cynllun Cefnogaeth Symudol ac Ymyrraeth Argyfwng gennym yn cefnogi merched, dynion a’u teuluoedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

**Cefnogi Plant a Phobl Ifanc**
Mae gennym ddarpariaeth arbenigol sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd yn dioddef o effeithiau trais yn y cartref. Mae’r cynllun yn cynnig gwybodaeth, anogaeth a chefnogaeth emosiynol i unigolion yn y gymuned ym Môn a Gwynedd.

Draw yn Nolgellau a Llangefni mae ein Siop Un Stop yn cynnig gwasanaeth holistig i unigolion a theuluoedd sy’n dioddef o drais yn y cartref.

**Ymgynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA)**

Mae ein Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref yn cynnig cefnogaeth arbenigol ac ar gael i gefnogi unigolion. Trwy weithio gydag asiantaethau eraill fel Heddlu Gogledd Cymru, gallwn gefnogi unigolion sydd mewn sefyllfaoedd risg uchel. Yn 2022/23 byddem yn treialu IDVA iechyd yn Ysbyty Gwynedd. Mae’r gefnogaeth yn cynnwys:

- Trafod math o drais – corfforol, rhywiol, aflonyddu, stelcian, emosiynol, cenfigen
- Trafod y broses MARAC
- Materion yn ymwneud ar ran diogelwch cyffredinol.
- Materion cyfreithiol
- Materion yn ymwneud â’r plant
- Materion yn ymwneud â gwahanu / ac ar ôl gwahanu
- Materion yn ymwneud â materion ariannol.
- Materion tai a diogelwch eiddo.
- Materion Iechyd a llesiant
- Materion cefnogaeth ychwanegol

**Consortiwm Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc – Ar Trac**

Mae 'Ar Trac' yn gynllun, cyffrous fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi, neu wedi bod yn dyst i gamdriniaeth yn y cartref, ac sy'n cael trafferthion yn eu perthynas â'u teuluoedd a'u cyfoedion. Drwy fynd i'r afael â'r trafferthion yma, ac adeiladu ar gryfderau yn eu plentyndod, mae Ar Trac yn anelu i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth yn y cartref, a gwella lles corfforol a meddyliol yn hwyrach yn eu bywydau. Drwy ddefnyddio gwaith grŵp a theulu sy'n addas i'w hoedran, ochr yn ochr â chefnogaeth unigol, bydd y prosiect yn cyflwyno llwybr unigryw, wedi ei deilwrio i blant a phobl ifanc o 5 i 16 oed, sy'n adeiladu ar eu cryfderau, ac sydd yn cael eu ategu gan ymchwil, cyd-gynhyrchiad, ac arferion wedi eu seilio ar wybodaeth am drawma. Bydd Ar Trac yn gweithio mewn 10 sir yng Nghymru ac yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog.

Ariannir y cynllun gan Llywodraeth Cymru am 3 mlynedd. Mae'n gonsortiwm ar y cyd â Chymorth i Ferched Cyfannol, Cymorth i Ferched Caerdydd, Calan ac Gwasanaethau Trais Gorllewin Cymru. Rydym yn falch bod arian am 2 flynedd ymhellach wedi ei gadarnhau sydd yn rhoi cyfle i sefydlogi'r gwasanaeth hyd at Mawrth 2025.

**Gwasanaethau Atal Digartrefedd yng Ngwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn**

**Gwynedd**

<u>Llys Seion</u>

Mae Cynllun Llys Seion yn safle gyda 6 o fflatiau ym Mhwllheli ar gyfer unigolion a theuluoedd digartref er mwyn cynnig cefnogaeth a chyngor i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun Cefnogaeth Symudol yn wasanaeth ar gyfer trigolion Gwynedd er mwyn cefnogi teuluoedd ac unigolion i fyw yn eu cartref yn llwyddiannus ac annibynnol.

<u>Cynllun Cydgysylltydd Digartrefedd Gwynedd</u>

Nod y gwasanaeth yw darparu gwasanaeth cefnogi o ansawdd uchel mewn perthynas â thai ar gyfer pobl sengl a theuluoedd 16 oed a throsodd, sydd ag anghenion aml gefnogaeth a allai gynnwys cyfuniad o faterion megis digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, cefndir o droseddu, iechyd meddwl a phroblemau anabledd dysgu lefel isel. Bydd y gwasanaeth yn targedu'r bobl hynny sydd ag anghenion cefnogaeth uchel.

**Sir Ddinbych**

**Yr Hafod**

Prosiect tai â chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16-25 oed ac sydd wedi ei leoli yn Ninbych yw'r Hafod. Bydd staff yn gweithio gyda phobl ifanc er mwyn cynllunio ar gyfer eu dyfodol drwy gynorthwyo ac annog sgiliau i reoli tenantiaeth ac i feithrin sgiliau er mwyn cael mynediad i waith.

Mae'r Hafod yn cydweithio'n agos gyda'r HWB sydd yn rhan o'r un adeilad. Eto yn yr Hafod, mae Cynllun Cefnogaeth Symudol ar gael i bobl ifanc 16-25 oed sydd angen cefnogaeth i sefydlu a chynnal eu tenantiaeth yn lleol.

**Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth**

"Braf cael rhywun yno, wedi rhoi cymaint o gymorth a chefnogaeth i mi i reoli fy arian a'm cartref."

"Maent bob amser yn mynd y tu hwnt i'r gofyn. Mae'r staff cefnogi wedi bod yn ffantastig, y ffordd maen nhw'n siarad gyda chi, byth yn edrych i lawr arnoch chi."

“Derbyniais gefnogaeth emosiynol a chefnogaeth gyda phroblemau cael mynediad i’m plentyn. Wedi bod trwy’r llys a’m helpu gyda materion cyfreithiol. Maent wedi bod yn fendith.”

“Maent yn gwrando ar yr hyn sydd gennych i’w ddweud ac yn ymateb o fewn amser rhesymol.”

“Rwy’n derbyn cefnogaeth dda iawn, maen nhw’n sortio fy mhroblemau tai, wedi fy helpu trwy brofedigaeth, ac wedi fy rhoi mewn cysylltiad â’r Tîm Iechyd Meddwl.”

“Ni allaf ganu eu clodydd ddigon. Nid wyf yn gwybod beth fyddwn i wedi’i wneud hebddynt.”

“Bu iddynt ddarparu cefnogaeth i mi mewn perthynas â gweithgareddau hamdden er mwyn gwella fy iechyd meddwl – mynediad i’r clwb hwylio, gwersi cyfrifiaduron a grwpiau cerdded. Bu i’m Gweithiwr Cefnogi fy helpu i gael grant ar gyfer fy nhrwydded yrru. Rwyf bellach nôl mewn gwaith, yn gweithio rhan-amser.

**Beth fydd ei angen arnoch chi i lwyddo yn y rôl hon .....**

Byddwch yn cynnig profiad gweithiwr cymorth i unigolion bregus a bydd gennych wybodaeth am weithio o fewn elusen neu sefydliad sector cyhoeddus, lle rydych wedi mentora a chefnogi yn llwyddiannus. Bydd gennych ymwybyddiaeth gynhwysfawr o gefnogi pobl bregus a gwybodaeth a phrofiad o ysgogi hyder, hunan-barch ac annibyniaeth.

**Eich personoliaeth…...**

Byddwch yn hyderus gyda'r gallu i weithio gyda phob grŵp oedran, yn meddu ar sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu gwych cydberthnasau a gweithio ar y cyd gydag ystod eang o bartneriaid cyflenwi, academaidd sefydliadau a phlant / pobl ifanc. Byddwch yn drefnus iawn, yn gallu addasu i newid, yn gadarn, yn wydn ac yn mwynhau cymell unigolion sydd ag angerdd i gefnogi unigolion bregus.

**Mwy o wybodaeth?** Ewch ar ein gwefan www.grwpcynefin.org

## 3. Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Grŵp Cynefin yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a’u goblygiadau.

Mae gweithdrefnau yn eu lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisïau Grŵp Cynefin yn cael eu monitro a’u hadolygu’n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.

## 4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

**GRŴP CYNEFIN**

---

**DISGRIFIAD SWYDD**

| **GWEITHIWR CEFNOGI POBL HŶN – YNYS MÔN** |
|---|

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Gorwel |
| **Yn uniongyrchol atebol i:** | Arweinydd Tim Atal Digartrefedd |
| **Yn uniongyrchol gyfrifol am:** | Amherthnasol |
| **Lleoliad y swydd:** | Llangefni / Gweithio Adref |

**Pwrpas y Swydd:**

- Darparu gwasanaeth cefnogi o ansawdd uchel i ddefnyddwyr gwasanaeth* yn y gymuned sydd ag anghenion isel, canolig ac uchel fel bo Gorwel yn rhagori.
- Cefnogi Arweinydd Tîm a chyd weithio gydag aelodau eraill yn y gymuned i gyflawni nod ac amcanion y cynllun.
- Darparu cymorth ac arweiniad i ddefnyddwyr gwasanaeth i atal digartrefedd ac hybu annibyniaeth yn Ynys Môn gan ganolbwyntio ar ganlyniadau positif.
- Gweithredu fel prif gyswllt ar gyfer darpar ddefnyddwyr gwasanaeth / defnyddwyr gwasanaeth bregus gan weithredu a blaenoriaethu yn ôl angen a risg.
- Gweithredu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cefnogaeth holistig a pherson canolig i wireddu safonau uchel o berfformiad sy'n cynnig 'cefnogaeth a mwy'.

**Mae'r term 'defnyddwyr gwasanaeth' yn cyfeirio at ddynion, merched, plant, pobl ifanc, oedolion, pobl hŷn a theuluoedd.*

**CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**

1. Cefnogi ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth er mwyn llwyddo i fyw bywyd annibynnol yn y gymuned.

2. Cynnal perthynas bositif a therapiwtig gyda defnyddwyr gwasanaeth gan ddangos dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â thrawma, anhwylder personoliaeth ac ymlyniad.

3. Egluro cynnwys tenantiaeth gan nodi hawliau defnyddwyr gwasanaeth a'u cyfrifoldebau.

4. Cwblhau'r broses gyfeirio ac asesu darpar ddefnyddwyr gwasanaeth gan gwblhau asesiad anghenion / risg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r prosiect.

5. Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol er mwyn ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i ragori yn neilliannau Rhaglen Grant Cymorth Tai :-

    - Teimlo'n Ddiogel
    - Cyfrannu at ddiogelwch a lles eu hunain ac eraill
    - Rheoli Llety
    - Ysgogi Perthynas Iach
    - Teimlo'n rhan o'r gymuned
    - Rheoli arian a chyllideb
    - Cymryd rhan mewn addysg a dysgu
    - Ymchwilio i gyfleon gwaith a gwirfoddoli
    - Iechyd a lles
    - Iechyd Meddwl
    - Ysgogi ffordd o fyw iach.

6. Arwain a gweithredu i fonitro a chwblhau cynllun cefnogaeth unigol gyda'r defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd gan gymryd cyfrifoldeb i drafod lefel angen, amcanion, deilliannau, dewisiadau a chynnydd sydd yn cyd-fynd â chanllawiau Rhaglen Grant Cymorth Tai.

7. Asesu risg gan benderfynu ar lefel risg a chymryd cyfrifoldeb i gynllunio cynllun rheoli risg sy'n ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

8. Cynnal ffeiliau defnyddwyr gwasanaeth yn unol â gofynion statudol, deddf diogelu data gan gadw cofnodion clir a chryno o safon gan wneud defnydd llawn o'r system rheoli achosion 'Discovery'.

9. Cyfrifoldeb i ddarparu adroddiadau penodol o safon ar faterion perthnasol e.e. adroddiadau ar gyfer y llys, cyfarfodydd achos, adroddiadau digwyddiadau difrifol ac astudiaethau achos rheolaidd.

10. Ymateb a gweithredu yn brydlon gan hysbysu'r Arweinydd Tim am unrhyw bryderon Amddiffyn Plant ac Amddiffyn Oedolion Bregus gan gwblhau cyfeiriadau cywir a ffeithiol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.

11. Cynorthwyo'r defnyddwyr gwasanaeth i eirioli â Chyfreithwyr, Heddlu, Llys, Adran Gwaith a Phensiwn, Adran Dai, Asiantaethau Hawliau Lles, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac asiantaethau perthnasol eraill a'u cefnogi drwy'r broses.

12. Darparu gwybodaeth i'r unigolion ar faterion perthnasol gan gynnwys tai, hawliau lles, amddiffyniad cyfreithiol, gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau addysg ac ati a'u cynorthwyo i gwblhau ffurflenni perthnasol.

13. Trefnu gwasanaethau perthnasol ac arbenigol sydd eu hangen ar y defnyddwyr gwasanaeth gan eu cyfeirio i wasanaethau arbenigol fel bo'r angen. (e.e. Tim Iechyd Meddwl, Tim Cam-ddefnyddio Sylweddau, Cyngor ar Bopeth.)

14. Rhoi cyngor i ddelio gyda materion budd-daliadau lles (sy'n cynnwys budd-dal tai) gan ystyried effaith diwygio lles ar ddefnyddwyr gwasanaeth gan hyrwyddo cynhwysedd ariannol a chynnal profion fforddiadwyedd.

15. Ymateb i achosion o anghydfod neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gasglu tystiolaeth a chwblhau adroddiadau manwl ar ddigwyddiadau difrifol ar gyfer yr Arweinydd Tîm.

16. Cynnal perthynas waith effeithiol gydag asiantaethau allanol gan gynnwys cynlluniau mewnol Gorwel.

17. Arwain er mwyn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i reoli cyllideb bersonol gan eu cynorthwyo i gwblhau ceisiadau grant er mwyn taclo tlodi.

18. Cyfrifoldeb i gefnogi ac annog defnyddwyr gwasanaeth yn y prosiect i sefydlu perthynas positif gyda'u perthnasau os yn bosib.

19. Annog defnyddwyr gwasanaeth i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.

20. Arwain a chefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan neu drefnu gweithgareddau cymunedol gan rhoi pwyslais ar gyfleoedd gwirfoddoli sy'n arwain at gyflogaeth.

21. Cyfrannu at hyrwyddo cyfranogiad i sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth ddylanwadu ar y gwasanaeth a ddarperir gan Gorwel.

22. Bod â gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddigartrefedd, pobl hŷn a chefnogaeth.

23. Delio gyda gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â'r swydd gan gadw a chasglu dadansoddiadau sy'n cynnwys deilliannau Rhaglen Grant Cymorth Tai.

24. Hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, Microsoft Office ac I-pad.

Nid yw'r Disgrifiad Swydd uchod yn rhestr holl gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.

Bydd gofyn i ymgymryd â dyletswyddau eraill o fewn graddfa'r swydd o bryd i'w gilydd mewn trafodaeth â'r Rheolwr.

Adolygir y disgrifiad swydd yn rheolaidd ac yn unol â gofynion y gwasanaeth.

Caiff unrhyw newid a fwriedir ei drafod gyda deilydd y swydd.

**PRIF GYSYLLTIADAU'R SWYDD:**

| | |
|---|---|
| Mewnol: | Pob aelod o staff |
| Allanol: | Defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r cyhoedd, swyddogion tai'r awdurdod lleol, swyddogion Grant Cymorth Tai, budd-daliadau tai, gwasanaethau cymdeithasol, adran iechyd yr amgylchedd ac adran gwarchod y cyhoedd. Swyddogion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Cyngor yr Henoed, landlordiaid preifat, Gofal a Thrwsio, Cyngor ar Bopeth, darparwyr ac gwasanaeth iechyd, cynghorwyr lleol, asiantaethau arbenigol, darparwyr gofal a chefnogaeth, asiantaethau gwirfoddol a thrydydd sector, IDVA, yr Heddlu, Llysoedd, Gwasanaeth Prawf. |

**AMGYLCHEDD GWAITH ARFEROL:**

- Gwaith wrth ddesg mewn swyddfa / Gweithio adre
- Ymweliadau i gartrefi a sefydliadau cysylltiedig yn Ynys Môn.
- Cyfarfodydd allanol, yn swyddfeydd partneriaid a chleientiaid
- Teithio i gyfarfodydd / hyfforddiant
- Rota yn cynnwys gweithio ar benwythnosau (Llun i Gwener 09:00 – 17:00 / 09:00 - 12.30 ar benwythnosau)
- Oriau swyddfa safonol gan gynnwys oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd.

**MANYLEB PERSON**
**GWEITHIWR CEFNOGI POBL HŶN – YNYS MÔN**

**Ystyrir yr holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel dymunol**

**Addysg a Chymwysterau**:

- Lefel A (2+)
- Cymhwyster mewn gofal plant, gofal, cefnogaeth neu waith cymdeithasol neu/ac
- NVQ Lefel 3 (National Vocational Qualification) neu/a
- BTEC Diploma Cenedlaethol neu/a
- BTEC ONC (Ordinary National Certificate) neu/a
- City & Guilds Lefel 3 neu/a
- Hyfforddiant neu brofiad perthnasol

**Profiad Proffesiynol:**
- Profiad yn y maes cefnogaeth, pobl hŷn a digartrefedd.
- Profiad o eirioli, chynghori ac ymateb i anghenion unigolion bregus

**Gwybodaeth a Sgiliau:**
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes digartrefedd a chefnogaeth.
- Dealltwriaeth o, a'r gallu i weithredu ffiniau clir - i wrando ac i beidio barnu
- Yn meddu ar sgiliau i ddatrys problemau.
- Yn meddu ar sgiliau i asesu ac ymateb i anghenion ac risg.
- Ymwybyddiaeth o Raglen Grant Cymorth Tai gan gynnwys polisïau a strategaethau trais yn y cartref, digartrefedd a chefnogaeth.
    - Deddf Tai (Cymru) 2014
    - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant (Cymru) 2014
    - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
    - Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
    - Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Bregus Cymru Gyfan.
- Trwydded yrru gyfredol lawn
- Gallu defnyddio TGC fel arf gwaith

Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu lefelau uwch:

| | |
|---|---|
| Deall: | Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl |
| Siarad: | Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith |
| Darllen | Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin a deunydd technegol gyda geiriadur yn y ddwy iaith |
| Ysgrifennu: | Yn gallu drafftio testun arferol gyda chymorth golygyddol yn y ddwy iaith |

**Nodweddion Personol:**
- Ymrwymiad i wasanaeth cwsmer a buddsoddi mewn cymunedau
- Ymrwymiad i gyfranogiad, ansawdd a gwelliant parhaus defnyddwyr gwasanaeth
- Bod yn optimistaidd ynghylch y posibilrwydd o dwf a newid personol.

| Crynodeb o'r Telerau ac Amodau<br>Gweithiwr Cefnogi Pobl Hŷn - Ynys Môn | |
|---|---|
| **Math o gytundeb** | Parhaol |
| **Cyflog** | Pwynt 1 – 4 £21,744 - £23,758 y flwyddyn<br>Cynigir y swydd ar bwynt isaf y band<br>Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis |
| **Gwyliau:** | Rhoddir 36 diwrnod pro rata y flwyddyn o wyliau (25 diwrnod craidd, 3 diwrnod yn lle'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r 8 gŵyl banc statudol ymlaen llaw) yn cynyddu i 41 diwrnod pro rata y flwyddyn o wyliau wedi 5 mlynedd o wasanaeth (30 diwrnod craidd, 3 diwrnod yn lle'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r 8 gŵyl banc statudol ymlaen llaw).<br><br>*Nid oes hawl awtomatig am wyliau yn ystod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd na'r gwyliau banc statudol gan bod angen sicrhau rhediad y gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma* |
| **Teithio:** | 45 ceiniog y filltir |
| **Pensiwn:** | Mae Gorwel/Grwp Cynefin yn cynnig darpariaeth pensiwn trwy Gynllun Social Housing Pension Scheme (SHPS) |
| **Cyfnod prawf** | 6 mis |
| **Oriau gweithio a threfniant gwaith** | 35 awr yr wythnos<br>Rota Llun – Sul, 09:00 – 17:00 (09:00 -12.30 ar benwythnosau) oriau swyddfa safonol gan gynnwys oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd |
| **Tâl salwch** | Gweithredir cynllun tâl salwch galwedigaethol |
| **Absenoldebau Arbennig** | 5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol<br>2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru.<br>Amser credyd rhesymol ar gyfer apwyntiadau meddygol.<br>Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth.<br>Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol |
| **Gwiriad GDG** | Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ac fel rhan o'r drefn recriwtio staff, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei g/wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br><br>Oherwydd eithrio Grŵp Cynefin o effeithiau'r Ddeddf hon, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatgelu pob trosedd mae ef neu hi wedi ei gael yn euog ohonynt hyd yn oed os yw'r rheini yn rhai a fuasai wedi darfod yn unol â'r Ddeddf ac na fuasai fel arfer yn gorfod cael eu datgelu. Os bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn peidio datgelu trosedd a bod Grŵp Cynefin yn darganfod bod trosedd wedi ei chofnodi yn ei erbyn ef neu hi, bydd y cytundeb cyflogaeth yn cael ei derfynu yn syth ac heb unrhyw benderfyniad pellach. |